



# Children in Wales Plant yng Nghymru

## Tlodi Plant a Theuluoedd yng Nghymru: Canlyniadau Arolwg Plant a Theuluoedd 2018



[www.childreninwales.org.uk](http://www.childreninwales.org.uk)

[www.youngwales.wales](http://www.youngwales.wales)

# **Children in Wales – Plant yng Nghymru**

## **Ynghylch y sefydliad**

Plant yng Nghymru yw'r corff ymbarél cenedlaethol ar gyfer sefydliadau ac unigolion gwirfoddol, statudol a phroffesiynol sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru. Ei nodau yw hyrwyddo buddiannau'r grwpiau hyn, gwella gwasanaethau yng Nghymru a gosod plant yn uchel ar agenda Cymru.

Corff aelodaeth yw Plant yng Nghymru sy'n gweithio'n agos gyda'i aelodau sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol, gwneuthurwyr polisi a grwpiau defnyddwyr i wella bywydau'r holl blant sy'n byw yng Nghymru, ond yn arbennig plant ifanc, y sawl mae ansefydlogrwydd teuluol yn effeithio arnynt, plant ag anghenion arbennig neu anabledau, a'r sawl sy'n dioddef effeithiau tlodi ac amddifadedd. Mae'n casglu ac yn lledaenu gwybodaeth am blant ac yn hyrwyddo arfer da mewn gwasanaethau plant drwy ymchwil, datblygiad polisi ac arfer, cyhoeddiadau, cynadleddau, seminarau, hyfforddiant a mynediad i wasanaeth gwybodaeth eang.

Sefydlwyd Plant yng Nghymru ym Mawrth 1992, a daeth yn elusen gofrestredig ym 1993. Mae ganddo swyddfeydd yng Nghaerdydd a Bangor.

© Plant yng Nghymru, Mehefin 2018

[www.childreninwales.org.uk](http://www.childreninwales.org.uk)

Rhif elusen gofrestredig: 1020313

# Cynnwys

|                                                           | <b>Tudalen</b> |
|-----------------------------------------------------------|----------------|
| <b>Cyflwyniad</b>                                         | <b>4</b>       |
| <b>Prif Ystyriaethau Tlodi Plant</b>                      | <b>6</b>       |
| <b>Materion Ariannol</b>                                  | <b>8</b>       |
| <b>Tlodi Bwyd</b>                                         | <b>10</b>      |
| <b>Tlodi Tanwydd</b>                                      | <b>10</b>      |
| <b>Tlodi Gwledig</b>                                      | <b>11</b>      |
| <b>Rhwystrau Llety</b>                                    | <b>12</b>      |
| <b>Costau Ychwanegol Addysg/Mynediad i Addysg Bellach</b> | <b>13</b>      |
| <b>Gofal Plant</b>                                        | <b>15</b>      |
| <b>Colli Gwasanaethau</b>                                 | <b>16</b>      |
| <b>Rhwystrau Iechyd</b>                                   | <b>17</b>      |
| <b>Cynhwysiant Digidol</b>                                | <b>18</b>      |
| <b>Beth Ddylai Awdurdodau Lleol Ei Wneud</b>              | <b>19</b>      |
| <b>Beth Ddylai Llywodraeth Cymru Ei Wneud</b>             | <b>21</b>      |
| <b>Enghreifftiau o Arfer Da</b>                           | <b>22</b>      |
| <b>Arolwg Pobl Ifanc</b>                                  | <b>24</b>      |

## YMWADIAD

Sylwch mai barn yr ymatebwyr i gwestiynau'r arolwg yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nad yw Plant yng Nghymru o reidrwydd yn ei rhannu.

## Cyflwyniad

Mae tlodi yn digwydd pan fydd adnoddau teulu yn llai na beth mae arnynt ei angen, gan gynnwys cymryd rhan yn eu cymuned leol neu gymdeithas yn fwy cyffredinol. Mae'n anodd mesur tlodi yn gywir, ac yn aml bydd mesuriadau gwahanol yn rhoi darlun neu ddehongliad gwahanol. Y mesur a ddefnyddir amlaf yn y DU yw 'tlodi cymharol.' Mae hyn yn berthnasol i deulu mae ei incwm yn llai na 60% o incwm canolrifol y wlad, ond mae cydnabyddiaeth eang bod profiad teuluoedd o dlodi yn aml-ddimensiwn.

Un broblem wrth ddefnyddio'r mesur hwn, ar wahân i ffactorau eraill, yw ei fod yn mesur incwm 'teulu' ac felly heb gynnwys cyfran sylweddol o'r boblogaeth sy'n debygol o fod yn byw mewn tlodi. Mae hyn yn cynnwys y sawl sy'n byw ar y stryd neu mewn llety gwely a brecwast, pobl yn y carchar, myfyrwyr sy'n byw mewn neuaddau preswyl a menywod (llawer ohonynt â phlant) sy'n byw mewn llochesau.

Am y tair blynedd diwethaf mae Plant yng Nghymru wedi cyhoeddi adroddiadau o arolygon a gynhaliwyd i dlodi plant a theuluoedd yng Nghymru, sef ["Tlodi Plant a Theuluoedd yng Nghymru: Ciplun o faterion a godwyd gan deuluoedd"](#), [Tlodi Plant a Theuluoedd: canlyniadau'r Arolwg Plant a Theuluoedd 2015](#) a [Chanlyniadau Arolwg Plant a Theuluoedd 2016](#). Mewn adroddiadau blaenorol, dyma oedd yr ystyriaethau pennaf a welsom yn effeithio ar blant, pobl ifanc a theuluoedd mewn tlodi yng Nghymru:

- Effaith Diwygio Lles a newidiadau cysylltiedig i'r system fudd-daliadau (gan gynnwys diffyg ymwybyddiaeth am newidiadau, pryderon am gosbau ac oedi wrth wneud taliadau)
- Llety (mewn perthynas â dichonolrwydd ac argaeledd tai cymdeithasol ac ansawdd tai)
- Effaith y Dreth Ystafelloedd Gwely neu'r cymhorthdal ystafell wely sbâr
- Tlodi Bwyd (gan gynnwys y cynnydd yn nefnydd banciau bwyd)
- Dyled
- Costau ynni
- Costau byw cynyddol (yn benodol, teuluoedd sy'n cael anawsterau gyda chostau hanfodol bob dydd)

Hefyd roeddem yn gallu cofnodi a deall faint oedd wedi newid ac a oedd yr ystyriaethau a nodwyd o'r blaen yn dal yn berthnasol, ac a oedd canfyddiad ymhlith gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi teuluoedd bod y sefyllfa i aelwydydd gyda phlant wedi gwaethygu neu wella, neu a fu ychydig yn unig neu ddim newid.

Am y pedair blynedd diwethaf mae Plant yng Nghymru wedi llunio a chylchredeg holiadur blyneddol, drwy ein cronfa ddata o aelodau a chysylltiadau, i helpu i gyrraedd ymarferwyr rheng flaen sy'n gweithio yng Nghymru. Yn ogystal â gofyn am ymatebion i'r prif bryderon a godwyd o'r blaen, roedd diddordeb gennym hefyd mewn cofnodi unrhyw faterion ychwanegol a oedd yn effeithio ar deuluoedd â phlant. Hefyd roeddem yn awyddus i ymatebwyr rannu eu meddyliau a'u syniadau am atebion a allai helpu i atal, datrys neu leddfu effaith y materion a godwyd. Ar gyfer yr arolwg diweddaraf, newidiom y fformat ac yn lle penawdau pwnc penodol, gofynnem i ymatebwyr enwi'r pum problem bennaf mewn perthynas â thlodi sy'n wynebu plant a theuluoedd yn 2017/18.

Eleni, am y tro cyntaf, ceisiom gasglu barn plant a phobl ifanc drwy arolwg ar wahân. Roedd hwn ar gael ar-lein drwy Survey Monkey neu gallai gael ei gwblhau â llaw. Seiliwyd yr arolwg

ar dair thema: arian, tai a'r ysgol. Rhoddwyd pum datganiad i'r ymatebwyr ar bob thema, a oedd yn gysylltiedig â thlodi plant, a gofynnwyd iddynt ddewis pa ddau oedd mwyaf perthnasol yn eu barn hwy a'r rhesymau dros eu dewis. Gwelir copi o'r arolwg yn Atodiad 1.

Yn yr arolwg presennol, defnyddiodd cyfanswm o 114 o unigolion yr holiaduron rhwng Chwefror ac Ebrill 2018. Ni ddewisodd pob ymatebwr ymateb i bob cwestiwn, a dim ond yr atebion a roddwyd i gwestiynau penodol sydd wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn. Roedd gan ymatebwyr y dewis o aros yn ddi-enw, a gwnaeth llawer hynny, ond o'r sawl a ddewisodd roi rhywfaint o wybodaeth amdanynt eu hunain, gallem weld ymatebion gan gymysgedd eang o weithwyr proffesiynol o fewn awdurdodau lleol, cyrff sector cyhoeddus gan gynnwys meysydd iechyd, tai ac addysg a'r trydydd sector. Un nodwedd o bwys o arolwg eleni yw bod 10% o ymatebwyr, sy'n gweithio mewn gwahanol asiantaethau, wedi ymateb mewn rhinwedd personol gan roi profiadau personol o fyw mewn tlodi.

Mae'r adroddiad sy'n dilyn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i bob cwestiwn. Mae hyper-ddolenni wedi cael eu cynnwys pan fydd dyfyniad o ddeunydd allanol.



## Prif Ystyriaethau: Tlodi Plant a Theuluoedd


Gofynnwyd i ymatebwyr raddio'r materion hyn sy'n gysylltiedig â thlodi yn nhrefn eu pwysigrwydd:

Effaith newidiadau i fudd-daliadau  
Tlodi bwyd  
Cyflogaeth/incwm ansicr  
Dyled  
Cyflogau isel  
Tlodi tanwydd  
Costau/argaeledd gofal plant  
Colled Gwasanaethau  
Rhwystrau lechyd


Rhwystrau Llety  
Costau byw cynyddol  
Costau/argaeledd cludiant  
Tlodi gwledig  
Costau ychwanegol addysg  
Mynediad i addysg bellach

Dengys Siart 1 isod y pump mwyaf poblogaidd a rhydd Siart 2 drosolwg o'r sgorio ar yr holl faterion uchod.

### Siart 1



## Siart 2



Gofynnem i ymatebwyr esbonio pam roeddent wedi dewis y materion hyn, a dwedodd nifer sylweddol fod llawer o'r materion uchod yn rhyng-gysylltiedig a bod cyfuniad o ystyriaethau, fel cyflogaeth/incwm ansicr yn arwain at ddyled, tlodi bwyd a thanwydd a chyflogau isel. Mae hyn wedyn yn effeithio ar iechyd plant ac oedolion, addysg plant, perthnasoedd teuluol, gallu o ran rhianta ac ati, sy'n arwain at gyflawniad addysgol gwael, canlyniadau iechyd gwaeth i blant a phobl ifanc, iechyd meddwl gwael ymhlith rhieni a phlant a llesiant gwaeth yn gyffredinol.


Cafodd effaith gyfun cyflogau isel a chostau byw cynyddol ei hamlygu gan nifer o ymatebwyr hefyd, sy'n golygu bod rhaid i deuluoedd wneud dewisiadau anodd, er enghraifft, rhwng talu am gyfleustodau a bwydo'r teulu. Nododd [Papur Briffio](#), a gyhoeddwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree ym Mawrth 2018, er bod cynnydd da wedi'i wneud yng Nghymru i leihau tlodi yn gyffredinol, mae risg tlodi wedi cynyddu i deuluoedd sy'n gweithio ac sydd heb waith o ganlyniad i ddiwygio lles, cost gynyddol byw (yn enwedig tai) a swyddi â thâl isel.

*"Fel corff sy'n rhoi grantiau, dyma'r themâu sy'n cael eu rhoi mae gan ymgeiswyr dro ar ôl tro"*

Gofynnem i ymatebwyr a oedd pethau wedi gwella neu waethgu yn y flwyddyn ddiwethaf. Dengys Siart 2 isod i'r mwyafrif o ymatebwyr deimlo bod pethau ym maes tlodi wedi gwaethgu yn ystod y flwyddyn. Nid oedd yr un o'r ymatebwyr o'r farn bod pethau wedi gwella.

## Siart 2

### Ydy'r sefyllfa wedi newid yn y flwyddyn ddiwethaf?



Rhoddir enghreifftiau o'r hyn ddywedodd ymatebwyr am ystyriaethau gwahanol tlodi plant isod o dan y pennawd uchod. Mae effaith newidiadau i fudd-daliadau, cyflogau isel, cyflogaeth/incwm ansicr, dyled a chostau byw cynyddol wedi eu grwpio o dan 'Ariannol' gan eu bod yn rhyng-gysylltiedig i raddau helaeth.

### Ariannol

"Mae effaith budd-daliadau a chyflogau isel yn arwain pobl i mewn i ddyled a thlodi bwyd. Mae cost byw yn mynd i fyny a 'dyw cyflogau ddim yn adlewyrchu hyn."

"Yn aml mae'r sawl sydd mewn tlodi ac yn ceisio newid eu sefyllfa yn derbyn tâl isel neu ar gontractau dim oriau/afreolaidd sy'n gallu effeithio'n uniongyrchol ar eu holl hawliau i fudd-daliadau ac arwain at y Ffactorau Eraill yn y rhestr. Ychydig neu ddim cydbwysedd neu gyngor sydd i'r sawl sydd yn y math yma o fagl dlodi. Mae help i lenwi ffurflenni yn problem i lawer hefyd."

"Mae cyflwyniad Credyd Cynhwysol wedi cynyddu nifer y bobl sy'n chwilio am gymorth, yn arbennig pan fydd oedi gyda'r taliad cychwynnol.

*"Mae cydbwysio arian wedi dod yn fwy anodd. Gorfod dewis yn aml rhwng un peth a'r llall, wrth i'r wythnosau a misoedd fynd heibio jest pan r'ych chi'n meddwl bod eich pen uwchben y dŵr, dyma rywbeth arall, sgidiau neu got newydd, penblwydd neu filiau tanwydd y gaeaf"*

"Mae cost popeth yn codi ac mae hanfodion bob dydd yn y siopau'n mynd i fyny'n fwy. Iechyd meddwl yw un o'r problemau pennaf rydym yn eu gweld. Rydym yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol a'r trydydd sector yn lleol, ond mae bylchau aruthrol ac mae pobl yn methu cael gafael ar wasanaethau mod gyflym ag mae eu hangen. Mae llawer o swyddi'n talu'n isel, dim oriau."

“Mae rheoli dyled yn broblem gyson, ond yn ddi-os mae hyn yn cael ei waethygu pan fydd problemau o ran iechyd.”

“Nid yw contractau dim oriau a Chredyd Cynhwysol yn gweithio’n dda gyda’i gilydd. Mae cyflogau isel a newidiadau i fudd-daliadau wedi arwain at gynnydd mewn dyled.”

“Mae Credyd Cynhwysol yn cael effaith anferth. Mae unrhyw beth sy’n sbarduno newid i fudd-dal ar sail prawf modd yn broblem. Mae arian yn cael ei atal am y pum wythnos, sy’n effeithio ar dalu rhent. Mae pobl sy’n cael eu gwrthod am PIP yn gorfod hawlio Credyd Cynhwysol ac yna’n colli’r elfen anabledd difrifol a’r elfen anabledd uwch sy’n cael ei thalu fel arfer achos nad yw’n bodoli mewn Credyd Cynhwysol.”

“Mae budd-daliadau jest a bod yn talu cost byw, ond os bydd unrhyw gostau ar ben byw bob dydd, yna mae’n anodd i’r teulu, er enghraifft, triapiau ysgol, darparu cynhwysion coginio am arholiadau ysgol a phrynu gwisg ysgol newydd. Felly mae llawer o deuluoedd mewn dyled i geisio darparu’r eitemau na fydd budd-daliadau’n talu amdanyn nhw, er enghraifft, Nadolig a phenblwyddi.”

“Mae ystyriaethau o ran budd-daliadau yn rhwystro rhieni plant ag anghenion ychwanegol rhag mynd i mewn i gyflogaeth, neu ddiffyn dealltwriaeth o’r hawl i fudd-daliadau oherwydd cyflawniad addysgol gwael.”

Beirniadodd [adroddiad](#) a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ym Mehefin 2018 gyflwyniad Credyd Cynhwysol gan Lywodraeth y DU. Yn ôl yr adroddiad “...Trwy gydol cyfnod cyflwyno Credyd Cynhwysol cododd cyrff lleol a chenedlaethol sy’n cynrychioli ac yn cefnogi hawlwr nifer o broblemau am y ffordd mae’n gweithio’n ymarferol.” Er bod boddhad uwch yn un o fesurau llwyddiant yr Adra Gwaith a Phensiynau, canfu’r adroddiad nad oedd boddhad hawlwr gyda Chredyd Cynhwysol yn uwch na chyda budd-daliadau blaenorol. Hefyd tangynrychiolodd a methodd â mesur effaith Credyd Cynhwysol ar hawlwr neu lefel y caledi roeddent yn ei ddioddef. Mewn ardaloedd lle cafodd ei gyflwyno, roedd ôl-daliadau rhent wedi codi, roedd defnydd banciau bwyd wedi cynyddu ac roedd awdurdodau lleol yn cael anawsterau i ariannu gweinyddu Credyd Cynhwysol ar lefel leol. Yn ogystal, roedd problemau difrifol gyda’r broses geisio ar-lein.

Nododd [Papur Briffio](#) a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn Hydref 2017 nifer o broblemau gyda Chredyd Cynhwysol. Roedd y rhain yn cynnwys yr amser aros, cosbau, taliadau uniongyrchol, dynameg teuluoedd a hawl i gostau tai ar gyfer pobl ifanc. Mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif y bydd newidiadau i’r Lwfans Gwaith yn 2015 yn effeithio ar hyd at 160,000 o deuluoedd yng Nghymru, pan fydd ei gyflwyniad wedi’i gwblhau.

Nododd [Advice Trends in Wales](#), a gyhoeddwyd gan Cyngor Ar Bopeth Cymru, fod budd-daliadau a dyled yn cyfrif am 72% o’r problemau a gyflwynwyd gan 114,282 o bobl a ofynnodd am gyngor yn 2016/17.

## **Tlodi bwyd**

“Mae effaith budd-daliadau a chyflogau isel yn arwain pobl i mewn i ddyled a thlodi bwyd. Mae cost byw yn mynd i fyny a ‘dyw cyflogau ddim yn adlewyrchu hyn.”

“Mae cyflogau isel a chostau byw cynyddol yn effeithio ar safonau byw, gan ei gwneud yn anos i deuluoedd naill ai i fforddio prynu bwyd, ar ôl talu'r holl filiau cyfleustodau, neu i brynu bwydydd maethlon. Mae hyn yn golygu bod teuluoedd yn fwy dibynnol ar fwydydd wedi'u prosesu sydd, yn ei dro, yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddant yn dioddef problemau iechyd sy'n gosod straen ar system y GIG.”

“Mae tlodi bwyd yn gallu effeithio ar bob agwedd ar fywyd teulu, gan gynnwys cysylltiadau teuluol, addysg, datblygiad plant ac iechyd meddwl a lles.”

“Pe bawn ni'n ennill cyflog sylfaenol fasai'n rhaid i rywbeth ildio, bwyd neu danwydd. 'Sdim syniad gen i sut mae teuluoedd incwm isel yn ymdopi yma.”

“Mae ein banc bwyd ni'n gweld y nifer uchaf o gleientiaid ers blynyddoedd, oherwydd diffyg cyflogaeth a chost byw, ynghyd â'r newidiadau sy'n digwydd i'r system fudd-daliadau yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf.”

“Mae banciau bwyd yn cynyddu – dylen nhw ddim ddod yn ‘norm’.”

“Bu farw'r fam yn un o'm teuluoedd ac o ganlyniad newidiodd eu budd-daliadau. Bu'n rhaid i'r tad aros pedair wythnos a'r unig ffordd i'r teulu gael bwyta oedd drwy asiantaethau gwirfoddol yn camu i'r adwy a darparu bwyd a thalebau bwyd. Os nad oedd unrhyw asiantaethau'n cymryd camau, beth fasai wedi'i wneud?”

Nododd Ymddiriedolaeth Trussell fod bron hanner o'u cleientiaid wedi dweud bod eu hincwm yn ansefydlog o wythnos i wythnos, ac roedd 78% wedi hepgor prydau bwyd ac wedi mynd heb fwyd yn ystod y 12 mis diwethaf. Unig rieni a phlant yw'r boblogaeth bennaf sy'n defnyddio banciau bwyd. Nododd adroddiad a gyhoeddwyd ym Mehefin 2017, [Financial insecurity, food insecurity, and disability: The profile of people receiving emergency food assistance from The Trussell Trust Foodbank Network in Britain, June 2017](#) fod “Llawer o weithrediadau banciau bwyd dan straen oherwydd y galw cynyddol, gyda gwirfoddolwyr naill ai'n gweithredu fel cynghorwyr lles, neu'n rhy brysur yn rhoi'r bwyd i allu cynnig gwrando neu arwyddbostio.

## **Tlodi tanwydd**

Mae wedi'i gydnabod ers tro bod tlodi tanwydd yn fwy cyffredin mewn rhannau gwledig o Gymru, o ganlyniad i ddiffyg nwy o'r prif gyflenwad a'r ffaith bod ffynonellau eraill tanwydd yn ddrutach.

“Mae'n fwy neu lai'n gylch. Mae llai o incwm o fudd-daliadau neu gyflogau isel yn achosi tlodi bwyd, tlodi tanwydd a dyled. Unwaith rydych chi yn y cylch yna mae bron yn amhosib dod allan ohono.”

“Mae hyn yn berthnasol i beth rwy’n ei weld yn rheolaidd o fewn fy ngwaith – mae llawer yn rhyng-gysylltiedig hefyd. Y broblem gyda budd-daliadau ydy’r oedi / cosbi... mynd i ddyled, methu fforddio tanwydd neu wres...”

“Mae gwresogi’n cyn dŷ cyngor, rydyn ni’n ei rentu’n breifat nawr, yn costio £40 yr wythnos i ni gan nad oes dim inswleiddio ynddo. Pe bawn ni ar gyflog sylfaenol byddai’n rhaid i rywbeth ildio - bwyd neu danwydd.”

“Mae tanwydd yn broblem achos ‘dyw cyfraddau budd-daliadau ddim yn ddigon i dalu biliau tanwydd, yn ogystal â phopeth arall (bwyd ac ati).”

Yn Rhagfyr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid am bum mlynedd arall ar gyfer ei chynllun [Cartrefi Cynnes – Nyth](#). Yn gynnar yn 2018, lansiodd National Energy Action Cymru becyn cymorth newydd – sef [Off-Gas Advice Pack](#) – i’r sawl sy’n gweithio gydag aelwydydd tloedi tanwydd yn y Gymru wledig.

### **Tlodi gwledig/costau ac argaeledd cludiant**

Mae’n hysbys bod problemau gyda chludiant yn gysylltiedig i raddau helaeth ag ardaloedd gwledig, felly mae’r ddau gategori wedi’u grwpio gyda’i gilydd:

“Mae ardaloedd gwledig Cymru yn arbennig yn gweld teuluoedd yn cael anawsterau gyda chostau cludiant i gael mynediad i wasanaethau a phrynu bwyd.”

“Mae Powys yn sir wledig iawn gyda chludiant cyhoeddus cyfyngedig. Mae hyn yn lleihau mynediad i swyddi a gwasanaethau cymorth yn sylweddol.”

“Mae’r diffyg cludiant cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig yn broblem. Rwy’n byw mewn pentref lle mae car yn hanfodol, gan fod y bysiau’n rhedeg bob dwy awr tan 5.40pm. Does dim gwasanaethau ar ddydd Sul na Gwyliau Banc. Rwy wedi treulio oriau’n aros am gysylltiadau yn y dref. Torrodd fy nghar i lawr ym mis Rhagfyr y llynedd a gallaf ddweud heb os nac oni bai ei bod yn rhatach bod yn berchen ar gar a’i redeg na defnyddio cludiant cyhoeddus gyda theulu. Mae straen peidio â mynd allan cymaint ag oeddwn i pan oedd gen i gar wedi effeithio ar fy iechyd a’m cyllid i.”

Yn 2016 cyhoeddodd Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru [adroddiad](#) a edrychodd ar ymchwil bresennol a’r bylchau tystiolaeth am dlodi gwledig. Canfu’r adroddiad fod tlodi gwledig yn gallu cael ei guddio gan ffactorau gwahanol, fel pocedi o olud a chan diwylliant o hunanddibyniaeth mewn cymunedau gwledig; mae graddfa ac achosion tlodi gwledig yn wahanol iawn i dlodi mewn ardaloedd trefol. Hefyd mae problem y ‘premiwm gwledig’ ar fwyd a gwasanaethau, fel bwyd, tanwydd, ynni a chludiant. Mae diffyg dealltwriaeth o brofiadau pobl sydd mewn tlodi gwledig.

Yn ôl [Papur Briffio](#) a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mawrth 2018, mae cyflogau mewn ardaloedd gwledig yn syrthio’n sylweddol is na chyflogau ardaloedd mwy trefol. Mewn pum awdurdod lleol gwledig yng Nghymru, telir llai na’r cyflog byw gwirfoddol i 30% o

weithwyr, o'u cymharu ag 20% mewn ardaloedd llai gwledig. Wrth gynnwys mynediad i wasanaethau, mae hyn yn codi lefelau amddifadedd eto mewn ardaloedd gwledig.

Cyhoeddodd Plant yng Nghymru adroddiad ar [Tlodi Plant ac Allgáu Cymdeithasol yn y Gymru Wledig](#) sy'n dyfynnu llawer o ymchwil am effaith tlodi gwledig ar blant, yn nhermau allgáu cymdeithasol, cyfranogiad a hawliau plant.

### **Rhwystrau Llety**

“Prinder tai cyngor yn gorfodi llawer i rentu o'r sector preifat lle mae'r rhenti'n uchel iawn.”

“Mae llety yn straen aruthrol ar bobl ac mae Cyngorau'n ei gwneud yn fwy anodd i bobl gael llety. Yna mae pobl yn cael eu gorfodi i mewn i gartrefi sy'n anaddas.”

“Wrth gael eu troi allan oherwydd ôl-ddyledion rhent a dyled gyffredinol, mae teuluoedd yn cael eu gorfodi i symud i lety Awdurdod Lleol i rentu yn y sector preifat. Yn aml mae cyflwr tai yn waeth gyda landlordiaid preifat, sy'n dod â haen arall o straen i'r prif ofalwr - mae effaith gofalwr sydd dan straen hirdymor yn gallu effeithio'n andwyol ar berthnasoedd, bondio ac ymlyniad ac yn cynyddu esgeulustod emosiynol yn ddiofyn ymhlith plant, o ganlyniad i lai o gapasiti a sgiliau ymdopi. Mae'r plant yn dioddef mân afiechydon yn amlach a chyflyrau anadlu ychwanegol, oherwydd tlodi bwyd a thanwydd. Mae symud allan o gymunedau lle maent yn 'ffitio' yn arwain at unigedd cymdeithasol i'r prif riant a'r plant. Mae effeithiau negyddol capasiti is y rhiant o ganlyniad i'r pum ffactor ar y cyd ag unigedd cymdeithasol yn cynyddu'r risg o ran diogelu. Mae'r ffactorau hyn yn effeithio'n andwyol ac yn dylanwadu ar bob agwedd ar iechedd a datblygiad plentyn. Yn ogystal, mae teuluoedd Dechrau'n Deg yna'n preswyllo mewn daliadaeth breifat ardaloedd mwy goludog yn aml ac oherwydd y polisi, y tu allan i ardaloedd cod post unrhyw wasanaethau cymorth, sydd yn ei dro'n darparu coctel o broblemau o gymryd pethau gyda'i gilydd.”

“Yn aml mae teuluoedd yn byw mewn llety anaddas sy'n gallu cael effaith ddifrifol ar iechedd meddwl a lles y teulu cyfan.”

“Mae bron pob teulu rwy'n gweithio gyda nhw'n cael anawsterau gyda llety.”

“Mae tai fforddiadwy bob amser yn broblem, yn aml nid yw'r arian gan deuluoedd incwm isel i dalu bond i rentu'n breifat. Mae'n ymddangos bod llai o dai Awdurdodau Lleol ar gael i deuluoedd.”

Soniodd ymatebwyr hefyd am y diffyg llety symud-ymlaen i fenywod â phlant sy'n oroeswyr camdriniaeth ddomestig; llety addas i deuluoedd â phlentyn anabl a'r ffaith bod perchentyaeth tu allan i gyrraedd pobl sydd ar gontractau dim oriau.

*“Os bydd yn anodd i rieni fwydo a gwisgo eu plant, yna mae eu haddysgu'n dod ymhellach i lawr y raddfa. Triplau ysgol, llyfrau, gweithgareddau ychwanegol er enghraifft. Mae cyflogau'n isel a phrin yw'r swyddi, mae budd-daliadau'n hanfodol. Rwy'n gweithio ac rwy'n ei chael yn anodd.”*

Yn Ebrill 2018, cafodd tri chynghor yng Nghymru eu beirniadu'n hallt am roi £77,000 yn ôl mewn Taliadau Tai Disgresiynol (DHP) i Lywodraeth y DU. Bwriedir DHP ar gyfer pobl sy'n derbyn budd-dal tai neu Gredyd Cynhwysol sydd angen help ychwanegol gyda chostau tai [Newyddion BBC Wales, 3<sup>ydd</sup> Ebrill 2018](#)

Sefydlodd [adroddiad](#) gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol, a gyhoeddwyd ar y cyd â Sefydliad Joseph Rowntree, am safonau byw, tlodi ac anghydraddoldeb yn y DU yn 2018, nifer o ganfyddiadau allweddol mewn perthynas â llety:

- Rhwng 2011/12 a 2016/17 roedd newidiadau mewn costau llety, nad yw budd-dal tai yn eu talu, yn llawer uwch i blant incwm isel nag i blant incwm canolig
- Mae codiadau nodedig mewn rhentu preifat ymhlith teuluoedd incwm isel â phlant wedi cynyddu eu costau llety cyfartalog
- Mae newidiadau mewn costau llety wedi peri i gyfraddau tlodi a fesurwyd cyn ac ôl costau llety wahanu yn y 15 mlynedd diwethaf, yn arbennig i blant

Canfu [arolwg](#) a gynhaliwyd gan CPAG a Choleg Brenhinol Paediatreg ac Iechyd Plant fod tai llaith yn peri problemau anadlu, a bod rhieni yn methu bwydo bwyd iachus i'w plant na fforddio prynu past dannedd. I deuluoedd â phlentyn anabl neu gyflwr iechyd cronig, roedd llety gwael yn effeithio'n sylweddol ar eu gallu i ddarparu'r gofal roedd ei angen ar eu plentyn.

O ran y cyflenwad llety, nododd [ystadegau Llywodraeth Cymru](#) ym Mehefin 2018 fod gostyngiad o 12% mewn adeiladu tai yn 2017/18 o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol, pan gwblhawyd 1,198 o anheddau newydd sector cymdeithasol. Adeiladodd dau Awdurdod Lleol – Sir y Fflint a Bro Morgannwg - 81 o anheddau a chafodd y gweddill eu codi gan landlordiaid cymdeithasol preswyl.

### **Costau ychwanegol addysg/Mynediad i addysg bellach**

"Gallai cyflogau isel, incwm ansicr a cholled gwasanaethau effeithio ar iechyd, addysg a lles y sawl sy'n fwyaf agored i niwed."

"Mae tlodi bwyd yn effeithio ar addysg, os oes eisiau bwyd ar blentyn mae'n methu canolbwyntio ar ei addysg."

"O ran iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc, mae angen sylweddol a chynyddol am gwnselwyr ysgol hyfforddedig a gweithwyr ieuenctid achrededig."

"Mae'n anodd fforddio'r darpariaethau ychwanegol mae eu hangen ar eich plentyn pan fydd ganddo anghenion dysgu ychwanegol, boed meddalwedd, gliniadur, papur lliw neu fynediad i argraffydd. Weithiau mae angen tiwtor achos, i fod yn onest, yn y Sir yma does dim darpariaeth ddigonol ar gael i ddisgyblion drwy gyfrwng yr ysgol uwchradd neu addysg bellach. Rhaid i rieni dalu'n breifat neu bydd eu plant yn mynd heb ac yn cael anawsterau."

"Nid yw rhieni sy'n gweithio yn gallu fforddio prydau ysgolion, yn enwedig os oes ganddyn nhw fwy nag un plentyn yn yr ysgol."

“Mae mynediad i addysg (bellach) yn effeithio ar y dyfodol ar ddewisiadau sydd ganddyn nhw, gan rwystro'r cyfle i dorri'r cylch.”

“Mae lefelau addysgol gwael yn achosi i bobl fod yn ansicr pa fudd-dal mae ganddyn nhw hawl i'w dderbyn a diffyg hyder wrth wneud cais am y budd-daliadau.”

Adroddodd [arolwg](#) a gyhoeddwyd yn ddiweddar am brofiadau ei aelodau, a gynhaliwyd ar y cyd gan yr Undeb Addysg Cenedlaethol a Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant yn y blynyddoedd cynnar, ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru Lloegr a Gogledd Iwerddon, rai canfyddiadau annymunol. Cred 87% o'r ymatebwyr i'w harolwg fod byw mewn tlodi neu ar incwm isel yn effeithio'n sylweddol ar ddysgu plant. Mae ysgolion yn darparu gwasanaethau i deuluoedd sy'n byw mewn tlodi fel clybiau bwyd cost isel, banciau bwyd, banciau dillad, ariannu teithiau ysgol a gweithgareddau allgwricwlaidd, dillad ymarfer corff, llyfrau a deunyddiau ysgrifennu. Weithiau mae athrawon yn darparu cymorth yn bersonol i ddisgyblion a myfyrwyr o deuluoedd incwm isel.

Ym Mehefin 2018 ystyriodd adroddiad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru sut allai targedu cyllid wella canlyniadau addysgol i blant a phobl ifanc yng Nghymru. [Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyrraedd y Nod? Cyllid wedi'i Dargedu i wella canlyniadau addysgol](#) t6. Mae'r adroddiad yn cynnwys 31 o argymhellion y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried. Nod y mwyafrif ohonynt yw uchafu effaith buddsoddiad y Grant Datblygu Disgyblion (PDG) ac adeiladu ar Her Ysgolion Cymru. Ym Mehefin 2018, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Addysg ei bod wedi sefydlu cronfa Fynediad newydd £1.7 miliwn, fel rhan o gyllid PDG, i helpu i dalu cost gwisgoedd ysgol, gwisgoedd chwaraeon a gweithgareddau fel chwaraeon, Sgowtiaid a Geidiaid.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n [ymgyngori](#) ar y meini prawf cymhwyster ar gyfer prydau ysgol am ddim, yn dilyn cyflwyniad Credyd Cynhwysol. Ar hyn o bryd mae gan bob teulu sy'n derbyn Credyd Cynhwysol hawl i gael prydau ysgol am ddim i'w plant, gan gynnwys y sawl na fyddai hawl ganddynt o'r blaen o dan y system flaenorol. Ar ôl cyflwyno'r polisi presennol yn llawn ledled Cymru, byddai'n cynyddu'n sylweddol nifer y plant sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Bwriad Llywodraeth Cymru yw cyflwyno trothwy incwm o £7,400 ar gyfer derbynwyr Credyd Cynhwysol sy'n hawlio prydau ysgol am ddim ar gyfer eu plant. Mae'r ymgynghoriad ar waith tan 14 Medi 2018.

Yn ôl ymchwil gan [Sefydliad Joseph Rowntree](#), ers 2010 mae plant o deuluoedd incwm isel wedi bod yn dal i fyny â phlant o gefndiroedd mwy cefnog o ran cyflawniad addysgol, ond maent yn dal i fod yn llawer llai tebygol o adael yr ysgol gyda chymwysterau da.

## **Gofal plant**

“Mae'r newidiadau i fudd-daliadau wedi eu hadrodd i ni fel Awdurdod Lleol, sy'n cael effaith ar dalu am ofal plant.”

“Mae costau gofal plant yn broblem hefyd. I lawer o deuluoedd lle gallai'r ddau riant

fod mewn cyflogaeth, ac eisiau bod, os nad oes ganddyn nhw berthnasau i helpu gyda gofal plant, maen nhw'n wynebu dewis talu'r rhan fwyaf o'u hincwm ar ffioedd creche, neu roi'r gorau i weithio'n gyfan gwbl a dibynnu ar y system fudd-daliadau yn lle, weithiau er anfantais iddyn nhw'n ariannol."

"Yn aml mae teuluoedd yn methu chwilio am gyflogaeth oherwydd costau gofal plant a'r isafswm cyflog."

"Dylid rhoi sylw i gyflogau isel ar gyfer gweithwyr gofal plant. Nid ydyn nhw'n ddigon am y cyfrifoldeb."

"Fforddadwyedd gofal plant i rieni sy'n dechrau gweithio a'r sawl sydd yn y gwaith."



Ym Medi 2017, lansiodd Llywodraeth Cymru ei [Chynnig Gofal Plant](#), sy'n cynnig 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant am 48 wythnos y flwyddyn, yn rhad ac am ddim i'r holl rieni sy'n gweithio sydd â phlant tair a phedair oed, mewn pum ardal beilot yn y Gogledd a'r Cymoedd ac am ardaloedd dethol Rhondda Cynon Taf ac Abertawe. Mae hyn yn cael ei estyn o Fedi 2018 ymlaen i gynnwys Rhondda Cynon Taf i gyd, Torfaen a Cheredigion, ynghyd ag ardaloedd dethol yng Nghaerdydd, Casnewydd, Castell-nedd Port Talbot, Conwy, Wrecsam ac Abertawe.

Bu peth beirniadaeth o'r rhaglen, yn bennaf, fel a welir yn yr arolwg, ei bod ar agor i rieni sy'n gweithio yn unig sy'n eithrio cyfran fawr o rieni a hoffai weithio, ond y mae costau gofal plant yn eu gwahardd rhag gwneud. Mae'r farn hon yn cael ei chadarnhau gan Gomisiynydd Plant Cymru yn ei [hymateb](#) i ymgynghoriad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Fil Cyllid Gofal Plant (Cymru). dywedodd wrth y Pwyllgor:

*"Ni ddylai buddsoddiad ar raddfa fawr fel hon gan y wladwriaeth yn narpariaeth y blynyddoedd cynnar eithrio'n gyfan gwbl plant rhieni nad ydynt yn gweithio o'r budd-daliadau. Mae hyn yn debygol o atgyfnerthu anghydraddoldebau mewn canlyniadau i grwpiau cymdeithasol gwahanol ac felly mae angen dadansoddiad trylwyr o'r cychwyn i leddfu unrhyw ganlyniadau andwyol."*

"Rydym ni'n talu gofal plant dau ddiwrnod yr wythnos. Erbyn talu am ofal plant, petrol i gymudo a pharcio, mae fy nghyflog bron â mynd i gyd."

Mae pryderon hefyd y bydd y rhaglen, drwy gyfyngu'r gofal plant di-dâl i blant tair a phedair oed, yn methu gweithio i'r sawl sydd â mwy nag un plentyn nad ydynt yn bodloni'r meini prawf. Mae sawl adroddiad wedi nodi canlyniadau anfwriadol y cynllun; prinder lleoedd gofal plant neu gyfradd isel o'r sawl sy'n manteisio arno mewn rhai Awdurdodau Lleol sy'n cynnal y cynlluniau peilot ([Tystiolaeth a gyflwynwyd](#) i ymgynghoriad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Fil Cyllid Gofal Plant (Cymru)).

Yn ddiweddar cyhoeddodd Achub y Plant [‘Making Childcare Work – Fixing upfront childcare costs for families on Universal Credit’](#) ac er bod yn adroddiad hwn yn edrych ar Loegr yn unig, sydd â chynllun tebyg i Gymru ar gyfer gofal plant, wrth i Gredyd Cynhwysol gael ei gyflwyno’n gynyddol ledled Cymru, y bydd costau gofal plant yn dod yn broblem gynyddol i rieni sy’n gweithio sy’n hawlio Credyd Cynhwysol.

### **Colled Gwasanaethau**

“Mae teuluoedd yn gwybod bod angen iddyn nhw newid eu sefyllfa, ond maen nhw’n methu manteisio ar y rhain am fod gwasanaethau wedi cau yn y misoedd diwethaf. Mae gan hyn sgil-ffaith ar bob mater arall, yn ogystal ag iechyd a llesiant.”

“Mae gwasanaethau yn cael eu gosod dan bwysau ac mae toriadau mewn cyllidebau hefyd yn ffactor lle na all rhai gwasanaethau ddarparu cymaint o gymorth bellach ag y byddent yn hoffi gwneud.”

“Manteisiodd llawer o deuluoedd ar wasanaethau lleol i helpu gyda chynngor dyled, cwnsela a rhianta ac ati ac erbyn hyn hyn yn cael anawsterau gan fod ychydig iawn o wasanaethau”

“Mae colled (arian am) wasanaethau, rhai addysgol a chymdeithasol, yn effeithio’n negyddol ar deuluoedd ac ysgolion. Er enghraifft, mewn perthynas ag iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc, mae angen sylweddol a chynyddol am gwnselwyr ysgol hyfforddedig a gweithwyr ieuencid achrededig.”

“Caf ar ddeall bod colled cyson gwasanaethau i deuluoedd mewn angen. Mae’r adnoddau lleol gostyngol hyn yn cael cymaint o effaith ar ardaloedd amfanteisiol, ac ar blant a theuluoedd sy’n byw o fewn y cymunedau hyn. Bydd y bwriad i gau ysgolion lleol yn ychwanegu pwysau ariannol, gan gynnwys gwisg ysgol a chostau cludiant.”

“Rydym yn gweithio’n agos gyda gwasanaethau iechyd meddwl sylfaen a’r trydydd sector yn lleol, ond mae bylchau enfawr ac mae pobl yn methu cael gafael ar wasanaethau mor gyflym ag y mae eu hangen.”

Yn dilyn cyllideb yr hydref yn 2017, pan gynyddwyd grant bloc Cymru o San Steffan, ymatebodd [Llywodraeth Cymru](#) drwy nodi y byddai cyllideb Llywodraeth Cymru, hyd yn oed gyda’r arian ychwanegol, yn aros 5% yn is mewn termau real yn 2019-2020 nag yr oedd yn 2010-11, sy’n gyfwerth â £900m yn llai i’w wario ar wasanaethau cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol yn wynebu penderfyniadau anodd ar gydbwysu cyllidebau yn y flwyddyn sy’n dod.

Yn Chwefror 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gylch pellach o Gronfa Waddol Cymunedau’n Gyntaf o Ebrill 2018, i ganiatáu i Awdurdodau Lleol cymwys gynnal agweddau mwyaf effeithiol cyn brosiectau Cymunedau’n Gyntaf i gefnogi datblygiad cymunedau cydnerth.

### **Rhwysterau Iechyd**

“Er eu bod yn gysylltiedig ag incwm yn bennaf, mae’r ystyriaethau’n effeithio ar iechyd a lles plant a theuluoedd.”

“Gall ansefydlogrwydd budd-daliadau/incwm isel effeithio ar fwy o ddyled sydd yna’n effeithio ar iechyd meddwl a llesiant gwael, sy’n effeithio ar blant y genhedlaeth nesaf.”

“Colled meddygfeydd meddygon teulu yn yr ardal ac arbenigwyr area mewn gofal iechyd meddwl. Meddygon teulu sy’n anfodlon cefnogi eu cleifion yn eu hawliad am fudd-daliadau neu os ydyn nhw, maen nhw’n codi tâl am lythyron un llinell nad ydyn nhw’n helpu’r hawlydd.”

“Gall teuluoedd ei chael yn anodd mynychu apwyntiadau iechyd oherwydd diffyg/cost cludiant”

“Rwy’n gweithio gyda theulu lle bu’n rhaid i’r dyn yn y teulu ymadael oherwydd materion ymddygiad, gan adael ystafell wely sbâr y mae’n rhaid i berchennog y tŷ dalu amdani. Mae’n anodd iddi symud gan fod ei thŷ wedi’i addasu am ei hanghenion iechyd.”

“Mewn perthynas ag iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc, mae angen sylweddol a chynyddol am gwnselwyr ysgol hyfforddedig a gweithwyr ieuenctid achrededig.”

“Iechyd meddwl yw un o’r problemau pennaf a welwn. Rydym yn gweithio’n agos gwasanaethau iechyd meddwl sylfaen a’r trydydd sector yn lleol, ond mae bylchau enfawr ac mae pobl yn methu cael gafael ar wasanaethau mor gyflym ag y mae eu hangen.”

“Iechyd meddwl, teimlaf ei fod yn gallu arwain at broblemau tlodi ac a yw’r plentyn neu’r teulu dan sylw, nid yw’n derbyn cymaint o sylw ag mae ei angen mewn gwirionedd.”

Mae’n amlwg o’r ymatebion bod iechyd ac, yn enwedig iechyd meddwl, yn bryder mawr, sef yr effaith sydd gan dlodi ar iechyd meddwl ac afiechyd meddwl sy’n arwain pobl i mewn i dlodi. Hefyd mae effaith tlodi ar deulu sydd â phlentyn neu riant anabl. Canfu [adroddiad](#) gan Sefydliad Joseph Rowntree, a gyhoeddwyd ym Mawrth 2018, fod y gyfradd dlodi i bobl anabl yng Nghymru yr uchaf yn y DU.

Canfu Grŵp Gweithredu Ar Dlodi Plant a Choleg Brenhinol Paediatregwyr ac Iechyd Plant, [Poverty and Child Health – Views from the frontline, May 2017](#), gan arolygu 250 o baediatregwyr, fod dau o bob tri yn credu bod tlodi ac incwm isel yn cyfrannu’n ‘fawr iawn’ at afiechyd ymhlith y plant maent yn gweithio gyda nhw. Roedd y materion llw sy’n gysylltiedig â thlodi yn cynnwys:

- Rhieni sy’n methu fforddio ymweld â’u plant yn yr ysbyty
- Meddygon yn methu rhyddhau plant o ysbyty oherwydd pryderon am dai gwael neu dlodi bwyd
- Canlyniadau difrifol ansicrwydd ariannol ar iechyd meddwl a lles plant
- Effaith tlodi ar deuluoedd ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor

## **Cynhwysiant Digidol**

“Rwy wedi cael cleientiaid yn mynd i'r llyfrgell leol i gychwyn hawliad am Gredyd Cynhwysol, ond mae'r llyfrgell yn rhy brysur ac mae'n rhaid iddyn nhw fynd i ffwrdd. Yn ôl pob sôn mae'n mynd yn anodd trefnu apwyntiadau i ddefnyddio cyfrifiadur, a hynny nid yn unig am fod pobl yn gorfod hawlio Credyd Cynhwysol, ond mae'n rhaid gwneud hynny ar-lein hefyd.

Mae pobl yn methu defnyddio neu'n methu fforddio cael mynediad i'r rhyngwrdd yn eu cartref.”



Nododd [adroddiad](#), a luniwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru am Gynhwysiant Digidol yng Nghymru, fod bron un o bob pump o'r boblogaeth yn cael ei eithrio'n ddigidol, yn arbennig mewn cymunedau gwledig ac amaethyddol. Mae'n rhaid i lawer o bobl eraill ddioddef perfformiad gwael o ran cyflymder a dibynadwyedd, hyd yn oed mewn ardaloedd llai gwledig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi [Adroddiad Cynnydd](#) ar sail ei Fframwaith Strategol a Chynllun Cyflawni ar gyfer Cynhwysiant Digidol. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar wella bywydau pobl drwy dechnolegau digidol ac yn trafod rhwystrau i ymgysylltiad; y sawl sydd tebycaf o gael eu heithrio'n ddigidol a phartneriaethau sy'n hyrwyddo cynhwysiant digidol. Nid yw'n dweud llawer am well'r signal, sy'n cael ei anlygu yn adroddiad Canolfan Cydweithredol Cymru.

Meddai Rhodri Williams, Cyfarwyddwr Ofcom yng Nghymru:

*“Dengys ein canfyddiadau fod angen cyflymu cynlluniau i wella signal ffonau symudol yng Nghymru. Mae'n bwysig i bawb sydd â rhan i'w chwarae yn y broses o wella signal ffonau symudol yn cydweithio er mwyn i ddefnyddwyr yng Nghymru gael y gwasanaethau symudol maent yn eu disgwyl ac sy'n gymaradwy â gweddill y Deyrnas Unedig. Yng ngoleuni topograffed a dosbarthiad poblogaeth Cymru, mae gofynion unigryw o ran isadeiadd y rhwydwaith y mae'n rhaid eu bodloni i Gymru gadw cyflymder â gweddill y DU.”* [O wefan Ofcom 29/6/2018](#)

### **Beth ddylai Awdurdodau Lleol ei wneud i drechu tlodi plant?**

We asked ymatebwyr what they thought Awdurdodau lleol should be doing to reduce child and teulu tlodi, and what three key actions they should take to reduce tlodi plant in their area:



Ymatebion amrywiol iawn a gafwyd i'r cwestiwn hwn. Yn gyfan gwbl cawsom 186 o gamau allweddol, yr ydym wedi eu grwpio'n bum prif gategori. Roedd rhai awgrymiadau a oedd tu allan i gylch gorchwyl Awdurdodau Lleol.

### Gwasanaethau

Soniodd 31% o ymatebwyr am Wasanaethau. Amlygwyd pryderon am gollu gwasanaethau ac asiantaethau cymorth a'r awydd i weld eu hadfer. Roedd gwasanaethau fel cymorth iechyd meddwl a chymorth i deuluoedd o bryder arbennig. Roedd awgrym y gallai mwy o wasanaethau cymorth gael eu lleoli mewn ysgolion neu

*"Byddai darparu gwasanaethau cymorth cymunedol o gymorth yn RCT – does dim rhai erbyn hyn."*

*"Gwaith ataliol gyda theuluoedd sydd mewn perygl o fyw mewn tlodi – mae llawer o ddarpariaeth am hyn yn Nhorfaen, ond dylai'r cwmpas am nodi teuluoedd "mewn perygl" gael ei ehangu i gynnwys mwy o deuluoedd sy'n gallu manteisio ar y math yma o gymorth."*

ganofannau cymuned. Soniodd nifer arwyddocaol am yr angen am fynediad gwell i wasanaethau. Roedd galwad am gyfathrebu gwell rhwng gwasanaethau cymorth ac Awdurdodau Lleol. Awgrymodd un ymatebwr godi'r Dreth Gyngor i gadw gwasanaethau.

Roedd sylwadau gan ein hymatebwyr am Wasanaethau yn cynnwys

"Gwasanaethau gwell (er enghraifft, cymorth iechyd meddwl, cysylltiadau cludiant)"

"Mynediad gwell i wasanaethau cymorth"

"Cefnogi'r gwasanaethau sy'n bodoli'n barod yn hytrach nag ailddyfeisio'r olwyn"

"Darparu trydan a nwy argyfwng drwy Wasanaethau Plant"

"Help gyda chyllidebu i bobl ar incymau isel"

"Gwybodaeth well am hawliau i fudd-daliadau"

"Cymorth lleol i deuluoedd sy'n derbyn budd-daliadau – efallai mewn ysgolion neu ganolfannau cymunedol"

“Gweithgareddau am ddim i ennyn diddordeb teuluoedd”

### Tai

Soniodd 29% o ymatebwyr am Dai. Roedd y sylwadau'n ymwneud â nifer o faterion mewn perthynas â thai, gan gynnwys mwy o hygyrchedd Taliadau Tai Disgresiynol (DHP), tai mwy fforddiadwy a gwella'r stoc tai presennol.

Roedd sylwadau gan ein hymatebwyr am Lety yn cynnwys:

“Rhowch DHPs yn awtomatig i bob teulu â phlant os ydyn nhw ar incwm isel”

“Tai addas i deuluoedd mawr fel nad ydyn ni wedi ein gwasgu mewn eiddo bach fel ydw i”

“Adeiladu mwy o dai cymdeithasol ansawdd da ag inswleiddiad da”

“Strategaeth gadarn i wella'r stoc tai, o ran nifer y cartrefi sydd ar gael ac ansawdd yr eiddo sy'n bodoli'n barod”

### Addysg/Hyfforddiant Oedolion

Credai 26% o ymatebwyr y dylai Awdurdodau Lleol wneud mwy i ddarparu/hyrwyddo agweddau gwahanol ar addysg oedolion. Roedd y rhain yn cynnwys mwy o arian am addysg a hyfforddiant i baratoi am waith, gan gynnwys hyfforddiant hygyrch i rieni â chyfrifoldebau gofal plant (darparu cyfleusterau crèche). Soniodd nifer o ymatebwyr am hyfforddiant i oedolion, gwella sgiliau rheoli arian, coginio a bwyta/dull o fyw yn iach.

*“Cymorth i deuluoedd i sicrhau cyflogaeth/newidiadau addysgol i'w cyflawni mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd”*

Roedd sylwadau ein hymatebwyr am Addysg Oedolion yn cynnwys:

“Addysg i oedolion am fudd-daliadau a sgiliau coginio”

“Mwy o addysg i oedolion am gost is”

“Darparu cymhorthdal am gludiant a phrydau bwyd ar gyfer addysg bellach i'w gwneud yn hygyrch i bawb sy'n dymuno astudio”

“Help yn ôl i'r gwaith gyda chyrsiau addysg”

“Cymorth teuluol i sicrhau cyflogaeth/newidiadau addysgol i gyflawni emwn ardaloedd anodd eu cyrraedd”

### Cost Addysg

Nododd 24% yr hyn mae angen i Awdurdodau Lleol ei wneud o ran cost addysg. Ar frig y rhestr roedd prydau ysgol am ddim. Roedd awgrymiadau'n cynnwys prydau ysgol am ddim i holl blant rhieni sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, holl blant ysgolion cynradd a'r sawl sydd ar incwm isel, a mynediad 365 diwrnod i brydau ysgol am ddim

i'r sawl sy'n byw mewn tlodi. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys cynyddu argaeledd/mynediad i weithgareddau ôl ysgol, gwersi nodion â chymhorthdal, dod â gweithwyr proffesiynol iechyd i mewn i ysgolion, er enghraifft, nyrsys a deintyddion a darparu mwy o wasanaethau cymorth teuluol mewn ysgolion.

Roedd sylwadau ein hymatebwyr am Gost Addysg yn cynnwys:

“Trefnu bod prydau ysgol ar gael i deuluoedd incwm isel”

“Mwy o arian mewn addysg i leihau anghydraddoldeb”

“Nysiau’n ôl ym mhob ysgol, er enghraifft, nyrs llau pen a deintydd ac ati”

“Rhoi’r gorau i gwtogi cyllidebau ysgolion”

“Helpu i bodi teuluoedd sydd angen help gyda chostau ysgol, mae ceisiadau am arian bob wythnos am rywbeth neu’i gilydd”

“Mynediad i brydau ysgol 365 diwrnod”

### Gofal plant

Soniodd 21% o ymatebwyr am Ofal Plant wrth ymateb i'r cwestiwn hwn. Prif thema'r ymatebion hyn oedd yr angen am ofal plant cost isel neu well gymorthdaliadau i rieni sy'n dymuno neu'n gorfod gweithio.

Roedd sylwadau ein hymatebwyr am Ofal Plant yn cynnwys:

“Gwell cymorthdaliadau gofal plant i rieni gael mynediad at waith”

“Cymorth gyda gofal plant i deuluoedd sy'n gweithio”

“Ymyrraeth gynnar i blant a mynediad i addysg trwy ofal plant”

“Darparu gofal plant am ddim i helpu rhieni i fynd i mewn i hyfforddiant a gwaith”

### **Beth ddylai Llywodraeth Cymru ei wneud i drechu tlodi plant?**

Gofynnem i ymatebwyr beth yn eu barn nhw ddylai Llywodraeth Cymru fod yn ei wneud i leihau tlodi plant a theuluoedd a pha dri cham allweddol dylai eu cymryd i leihau tlodi plant yng Nghymru. Unwaith eto, roedd amrywiaeth eang o ymatebion ar ystod o bynciau gwahanol.

Roedd llawer o'r ymatebion yn adlewyrchu rhai'r cwestiwn blaenorol am Awdurdodau Lleol gan drafod yn bennaf gofal plant fforddiadwy, cefnogi gwasanaethau sy'n gweithio gyda theuluoedd sy'n byw mewn tlodi, gwell darpariaeth llety, gwella addysg, hyfforddiant a sgiliau, tâl gwell am waith a mynediad i gyflogaeth. Roedd rhai'n ymwneud â materion sydd heb eu datganoli fel Credyd Cynhwysol a'r dreth ystafelloedd gwely.

Dyma ddetholiad o'r sylwadau:

“Buddsoddi mewn cymunedau lleol – ymgysylltu â phobl leol a gweithio drwy strategaethau o’r gwaelod i fyny at raglenni adfywio”

“Gofal plant mwy fforddiadwy neu gyda chymorthdal ar gael yng Nghymru i rieni sy’n gweithio a’r rhai sydd heb waith”

“Dosbarthu cyfoeth yn fwy cyfartal drwy strategaethau gwrth-gyfoeth”

“Defndydio pwerau codi treth i roi cymhelliant i fuddsoddi o’r tu allan a chynnig cymorth ymarferol i bobl ifanc ddatblygu entrepreneuriaeth go iawn”

“Cynnwys cyllidebu a thalu biliau yng nghwricwlwm ysgolion, er mwyn rhoi’r sgiliau i bobl ifanc reoli eu harian ac osgoi dyled yn y dyfodol”

“Ymgrych genedlaethol am fudd-daliadau nad yw teuluoedd o bosib yn gwybod amdany’n nhw neu sydd heb fod mor gyfarwydd – efallai eu hannog i fynd i Gyngor Ar Bopeth yn lleol neu gorff perthnasol arall i wirio a ydyn nhw’n derbyn popeth mae ganddyn nhw hawl iddo”

“Mwy o gefnogaeth i’r sawl a nodir fel rhai sydd wedi dioddef Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod ac nid dim ond y rhai sy’n byw mewn ardaloedd Dechrau’n Deg /Cymunedau’n Gyntaf”

“Edrych ar sefydlu band Treth Gyngor yn benodol i’r sawl sy’n derbyn budd-daliadau ar sail prawf modd ac sydd â phlant yn y teulu”

“Herio’r problemau a godir gan Gredyd Cynhwysol”

**Pa arfer da allwch chi ei amlygu yn eich ardal chi? Oes unrhyw beth penodol mae’ch corff chi’n ei wneud i ymdrin â thlodi plant?**

Amlygwyd nifer o fodelau arfer da mewn ymateb i’r cwestiwn hwn.

Roedd nifer o gyfeiriadau at waith Dechrau’n Deg, er bod rhai amheuan mewn perthynas â natur ‘loteri cod post’ y gwasanaeth a thoriadau i’w gyllid.

**Astudiaeth Achos**

*“Yn ein swyddfa leol rydym wedi meithrin cysylltiadau cryf ac effeithiol â chyrff ac asiantaethau eraill yn yr ardal. Mae gennym broses atgyfeirio glir sy’n gweithio’n dda gan adael i ni weithio gyda’n gilydd, ar draws yr ardal, i helpu teuluoedd.*

*Mae ein cleientiaid wrth reswm yn oedolion ac yn rhieni plant mewn tlodi ac rydym yn eu helpu gydag ystod eang o faterion, gyda’r nod o uchafu incwm a rheoli dyledion. Rydym yn helpu cleientiaid i ddelio ag unrhyw argyfyngau, yn gallu dosbarthu talebau bwyd ac yn gallu cynnig cyngor ar gyllidebu i deuluoedd a dulliau eraill o arbed eu harian, er enghraifft cyngor effeithlonrwydd ynni.*

Enwyd nifer o gyrff a phrosiectau penodol. Roedd y rhain yn cynnwys:


- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, trwy eu gwaith gyda chymunedau i ehangu mynediad i addysg uwch
- Prosiect Fit and Fed sy'n cael ei gynnal gan StreetGames
- Prosiect RASCAL yng Nghasnewydd
- rhaglen gyfranogi NYAS i blant a phobl ifanc hawdd eu niweidio
- NSPCC yng Ngogledd Cymru
- Plant yn Gyntaf
- Banciau bwyd a gwaith gyda gofalwyr ifanc a rhieni ifanc

## Arolwg Pobl Ifanc

Cafodd y datganiadau yr ymatebodd pobl ifanc iddynt yn yr Arolwg hwn eu datblygu gan dasglu a oedd yn cynnwys aelodau Grŵp Llywio Rhwydwaith Trechu Tlodi Plant a Swyddogion Datblygu o Cymru Ifanc. Cafodd yr arolygon eu cwblhau naill ai ar-lein neu â llaw.

‘Amdanoch Chi’ oedd yr adran gyntaf, a gasglodd wybodaeth ddemograffig. Roedd amrywiaeth eang o ardaloedd daearyddol dan sylw, a daeth y mwyafrif o Gaedrydd.


### Siart 1



Roedd oedrannau'r ymatebwyr yn amrywio. Roedd yr ifancaf yn 11 a'r hynaf yn 26, gyda'r mwyafrif rhwng 13 ac 16 mlwydd oed.

Roedd tri chategori o gwestiynau a oedd yn trafod Arian, Tai a'r Ysgol. Roedd pob categori yn cynnwys nifer o ddatganiadau a gofynnwyd i ymatebwyr ddewis dau o bob categori a oedd yn eu barn nhw y pethau gwaethaf am fyw mewn tlodi. Gwelir y canlyniadau yn Siartiau 2, 3 a 4 isod ac ynghlwm wrth bob siart mae detholiad o'r sylwadau a wnaeth plant a phobl ifanc am y pwnc hwnnw:

## Siart 2



## Sylwadau

*“Dyn ni ddim yn mynd ar wyliau, neu’n mynd i ganol y dre’n aml iawn. Mae mam yn cynilo i mi wneud pethau yn ei chyllideb hi”*

*“Mae bod heb arian yn straenus iawn i blant ac oedolion ifanc. Mae’n cael effeithiau negyddol yn hwyrach mewn bywyd ac yn gallu arwain plant i wneud y penderfyniadau anghywir”*

*“Diffyg cyfleoedd sy’n cael effaith yn hwyrach mewn bywyd”*

*“Allwch hci ddim wneud dim heb arian”*


*“Bod heb waith a methu cael help i dalu am bethau, mae gwyllo’r teulu yn cael anawsterau’n straen mawr”*

*“Mae’n gallu gwneud i chi deimlo’n drist ac yn isel”*

*“Weithiau rydych chi’n teimlo na allwch chi ofyn am bethau achos rydych chi’n gwybod nad oes digon o arian. Rydych chi’n rhedeg allan o arian ac yn methu prynu’r pethau rydych chi eu hangen”*

*“Mae straen cyffredinol y teulu yn difetha’r amgylchedd byw”*

### Siart 3



### Sylwadau

*“Byddwch chi’n oer a heb fod mewn amodau byw neis iawn. Bydd eich lles meddyliol yn lleihau”*

*“Efallai’n symud o dŷ i dŷ”*

*“Mae’r syniad o ddigartrefedd yn brawychu pobl ifanc ac oedolion”*

*“Mae rhai o’r ffrindiau i’n methu cael anifeiliaid anwes achos ‘dyw’r Landlord ddim yn caniatáu hynny”*


*“Dylai fod gennych chi ddigon o arian i dalu’ch biliau a chael cartref diogel”*

*“Ddim yn cael y cyfle i wahodd ffrind draw”*

*“Dim digon o gartrefi fforddiadwy”*

*“Mae fy mrawd yn flinderus ac yn uchel drwy’r amser pan fydda i’n gwneud fy ngwaith cartref. Weithiau rwy’n cyrraedd yr ysgol yn hwyr ac mae’r athro’n cythruddo”*

## Siart 4



## Sylwadau

*“Dych chi ddim yn cael yr ystod lawn o weithgareddau sydd gan bawb arall”*

*“Mae llai o ffrindiau gennych chi a phroblemau gyda hyder”*

*“Mae plant cyfoethog yn gallu gwneud llawer o weithgareddau a chael lalwer o ddewisiadau, ond mae'n rhaid i blantdlawd aros gartref. Pe bawn i'n gyfoethog faswn i'n gallu marchogaeth a dysgu canu'r gitar”*

*“Me pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gadael allan a'u trin yn annheg”*


*“Bydd pobl efallai'n gwneud sbort ar eich pen ac rydych chi'n teimlo'n ynysig*

*“Mae angen lloches ar bobl ifanc rhag pethau negyddol yn eu bywydau”*

*“Mae amddifadu plentyn o weithgareddau cymdeithasol a chorfforol yn gallu arwain at ystod o ganlyniadau negyddol”*

*“Hoffwn i gymryd rhan mewn digwyddiadau ond does dim llawer o arian gennyn ni. Weithiau rwy'n methu cymryd rhan achos does gen i ddim y dillad cywir”*

Gofynnodd y cwestiwn nesaf i bobl ifanc a oeddent yn meddwl bod pethau'n mynd yn waeth i ddeuluoedd sy'n byw mewn tldi.



O'r sawl a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 18 'Ydyn', 3 'Nac ydyn' a 9 'Ddim yn gwybod.' Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd unrhyw beth arall hoffent ei ddweud am sut mae tlodi yn effeithio ar blant a theuluoedd a chawsom yr atebion canlynol:

*"Mae plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi heb y cyfleoedd sydd gan bobl eraill"*

*"Mae angen mwy o ymwybyddiaeth"*

*"Mae'n niweidio eu gallu i wneud pethau ar ddechrau eu bywyd fel oedolyn"*

*"Mae'n arwain at iechyd meddyliol a chorfforol gwael a chanlyniadau negyddol cysylltiedig"*

*"Opsynau cyfyngedig. Cynyddu rhwystrau y mae pobl ifanc yn credu nad ydy'n bosibl eu trechu"*

*"Mae stigma ynghlwm wrtho fe o hyd"*

*"Mae'n gwneud i ni boeni a bod yn drist"*

*"Mae lles cyffredinol y disgyblion hynny'n is na'u cymheiriaid ac mae llwyddiannau academaidd yn dal i fod yn wahanol. Ydy'r bwlch mewn cyflawniad WIR yn lleihau?"*

*"Dyn nhw ddim yn cael yr un cyfleoedd ag eraill ac maen nhw'n cael eu gadael allan gan lawer o bobl, sy'n gallu effeithio ar eu sgiliau cyfathrebu"*

*"Mae'n cyfyngu pa weithgareddau mae pobl yn gallu eu gwneud, a ble maen nhw'n gallu mynd"*

*“Opsiyau cyfyngedig. Rhwystrau cynyddol y mae pobl ifanc yn credu nad oes mdod eu goresgyn”*

Gofynnem i bobl ifanc ddweud wrthym beth fyddent yn ei wneud i drechu tlodi plant yng Nghymru os nhw oedd Prif Weinidog Cymru a dyma eu hatebion:

*“Mynd allan i'r gymuned, ymweld ag ysgolion canol y ddinas yng Nghasnewydd a gwrando ar ddisgyblion a theuluoedd ac ATHRAWON. Penaethiaid hefyd. Yna asesu sut i wneud cynlluniau strategol ar gyfer cymunedau unigol”*

*“Faswn i'n creu tai cyngor. Faswn i'n creu mwy o lochesau i bobl ddigartref ac yn cynyddu budd-daliadau”*

*“Faswn i'n rhoi arian i ysgolion allu helpu'r sawl sydd mewn tlodi”*

*“Darparu mwy o wasanaethau am ddim, er enghraifft, clybiau brecwast, ceginau cymunedol, canolfwyntiau cymunedol”*

*“Faswn i'n ymgynghori o'r newydd i holi pobl”*

*“Incwm sylfaenol cynhwysol”*

*“Siarad â theuluoedd. Trefnu cyfarfodydd rhwydweithio”*

*“Tai diogel a sicr = fforddiadwy. Gostwng rhwystrau”*

*“Dod o hyd i'r brif broblem ac ymdrin â hi. Gallai barn pobl ifanc fod o fudd”*

*“Ceisio rhoi mwy o arian i mewn i weithgareddau allgwricwlaidd!”*


*“Faswn i'n gwneud teithio ar fysiau'n rhad ac am ddim o i blant, a chosi tâl isel ar oedolion tlawd. Faswn i'n creu mwy o swyddi gall rhieni eu gwneud o gartref, rhag ofn bod eu plant yn methu mynd i'r ysgol”*

*“Cael gwared ar weinyddwyr di-nod cynghorau lleol, rhoi terfyn ar fuddion sydd gan gynifer. Lleihau nifer yr ACau, gwerthu maes awyr Caerdydd, cael gwared ar gludiant am ddim i ysgolion tu allan i'r dalgylch”*

Gofynnodd cwestiwn olaf ond un yr Arolwg a oeddent yn gwybod am unrhyw beth da a oedd yn digwydd yn eu hardal i drechu tlodi plant. Soniodd ymatebion am glybiau brecwast, gwyliau ac ôl ysgol, prydau ysgol am ddim, canolfannau ieuenctid, gwelliannau i dai cyngor, budd-daliadau lles a chanolfwyntiau cymunedol. Dywedod un ymatebwr:

*“Cysylltiadau cymunedol Grwpiau meithrin mewn ysgolion Ysgolion cynhwysol Athrawon ardderchog gofalgar”*

Wrth gydnabod ei bod yn debygol, oherwydd dull cynnal yr arolwg (ar-lein a thrwy grwpiau /cynghorau ieuenctid), na fyddi'r bobl ifanc a oedd yn cwblhau'r arolwg ymhlith y rhai sy'n dioddef mwyaf o ganlyniad i dlodi plant, gofynnem gwestiwn terfynol:



Dim ond dau berson ifanc a ddywedodd fod eu teulu yn byw mewn tlodi. Fodd bynnag, siaradodd rhai pobl ifanc am feth â fforddio pethau newydd neu weithgareddau a pha mor ddrud mae pethau, ond hynny heb ddweud bod eu teulu yn byw mewn tlodi. Mae'n bosibl mai canfyddiadau gwahanol o dlodi gan bobl ifanc sy'n cyfrif am hyn, er enghraifft, mai dim ond problem i'w Trydydd Byd yw tlodi.

Yn 2017, adroddodd Plant yng Nghymru y bu fân welliant ar draws dangosyddion tlodi sy'n rhan o'r arolwg, am fod codiad yn y bobl a atebodd 'Nac ydy' i'r cwestiwn 'ydy hyn yn broblem?' ac awgrymu bod rhai categorïau'n llai o broblem nag yn y flwyddyn flaenorol, mewn perthynas â'r gwahanol ddangosyddion tlodi. Eleni, ar draws yr amrediad o ystyriaethau tlodi plant, gofynnwyd a oedd pethau wedi newid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn gyffredinol, o ran problemau tlodi, yn hytrach na holi am categorïau ar wahân. Dywedodd 67% o ymatebwyr wrthym fod y sefyllfa o ran tlodi wedi gwaethgu, dywedodd 28% na fu unrhyw newid, credai 6% fod pethau yn fwy na thebyg yn waeth ac ni ddywedodd neb fod y sefyllfa wedi gwella.

Effaith newidiadau i fudd-daliadau, cyflogaeth neu incwm ansicr, cyflogau isel a dyled oedd y pedair ystyriaeth bennaf o ran tlodi a amlygwyd yn yr arolwg, wedi eu dilyn yn agos gan dlodi bwyd a chost byw gynyddol. Roedd pryderon am Gredyd Cynhwysol yn amlycach na'r llynedd, tuedd sy'n achos pryder ganfod cyflwyniad y gwasanaeth digidol ond wedi cyrraedd tua hanner y bobl sy'n byw yng Nghymru hyd yma (i hawlwyd newydd, gan gynnwys teuluoedd â llai na thri o blant). Adeg llunio hwn, dylai deuddeg o Awdurdodau Lleol Cymru fod wedi mynd yn fyw gyda gwasanaeth Credyd Cynhwysol llawn, a dylai Blaenau Gwent ei gychwyn yng Ngorffennaf 2018. Yr ardaloedd olaf i weld cyflwyniad gwasanaeth llawn, yn Rhagfyr 2018, yw'r rhai â chyfran uchel i siaradwyr Cymraeg - Ceredigion, Ynys Môn, y rhan fwyaf i Wynedd a Sir Gâr. Nid oes bwriad i'w gyflwyno i'r sawl sydd eisoes yn hawlio budd-daliadau presennol tan Gorffennaf 2019, felly bydd y 12-18 mis nesaf yn gweld llawer mwy o deuluoedd yn dioddef caledi ariannol.

Roedd gofal plant a cholled gwasanaethau'n amlwg hefyd. Roedd ymatebwyr yn pryderu am argaeledd a hygyrchedd gofal plant a'r ffaith bod Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru, a lansiwyd yn 2017 mewn ardaloedd peilot, dim ond ar gael i blant tair i bedair oed, y mae eu rhieni'n gweithio. Roedd pryderon am golled gwasanaethau yn amrywio o lyfrgelloedd,



grwpiau ieuenctid a gwasanaethau i deuluoedd sy'n cael anhawster gyda dyled. Mae cysylltiadau cludiant gwael yn effeithio'n arbennig ar ardaloedd gwledig ynghyd â holl gost cludiant i deuluoedd â phlant dros bump oed. Ar ben hyn, cyfeiriodd ymatebwyr at 'breimiwm gwledig,' lle mae'r rhai sy'n byw mewn cymunedau gwledig yn nodweddiadol yn talu mwy am danwydd a bwyd.

Canolbwyntiodd tystiolaeth ymatebwyr ar iechyd meddwl fel achos a chanlyniad teuluoedd yn byw mewn tlodi; roedd pryder nad oedd digon o wasanaethau iechyd meddwl a'i bod yn anodd cael mynediad iddynt. Roedd pryderon eraill am iechyd yn canolbwyntio ar lety gwael ac effaith tlodi ar y sawl ag oedolyn neu blentyn anabl teulu.

Mae ymatebion am rwystrau o ran llety yn adlewyrchu i raddau helaeth yr hyn rydym wedi ei ddweud yn y ddau adroddiad diwethaf, sef nad oes digon o dai cymdeithasol, ei fod yn aml

wedi'i adeiladu yn y lle anghywir (nid mewn ardaloedd Dechrau'n Deg), cost uchel rhenti llety'r sector preifat a chyflwr gwael tai, sy'n arwain at broblemau iechyd.

Cawsom adroddiadau gan rieni ac ymarferwyr am gostau ychwanegol addysg, a sut mae plant yn colli cyfleoedd ac effaith hyn ar eu bywyd ysgol. Y gobaith yw y bydd yr arian ychwanegol a fydd ar gael i rieni drwy'r Grant Datblygu Disgyblion yn lleddfu rhai o'r problemau i'r plant sy'n byw mewn tlodi ledled Cymru. Roedd rhwystrau i addysg bellach i bobl ifanc ac oedolion sy'n dymuno mynd i mewn i waith oherwydd methu dod o hyd i ofal plant addas neu fethu â'i fforddio, diffyg ymwybyddiaeth o beth sydd ar gael mewn addysg bellach a sut i fanteisio arno.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae tlodi tanwydd mewn ardaloedd gwledig yn dal yn broblem fawr. Mae cost olew a ddefnyddir i wresogi cartrefi am nad oes cyflenwad nwy o'r prif gyflenwad yn peri caledi gormodol i'r sawl sydd wedi gweld cwtogi eu budd-daliadau a'r sawl sy'n ennill cyflog isel. Mae codiadau sylweddol mewn prisiau nwy yn 2018 wedi peri caledi i deuluoedd hefyd.

Yn ôl pob golwg mae cynhwysiant digidol yn broblem gynyddol, er gwaethaf ymdrech Llywodraeth Cymru i sicrhau nad yw neb yng Nghymru yn cael eu heithrio'n ddigidol. Mynediad i dechnoleg yw hanfod y broblem, mae'n ymddangos, er enghraifft, dim digon o gyfrifiaduron mewn llyfrgelloedd a chysylltedd gwael mewnllawer o rannau o Gymru, yn wledig ac yn drefol. Bydd y problemau hyn yn dwysáu yn y dyfodol pan fydd yn ofynnol i hawlwr Credyd Cynhwysol gofrestru a chynnal eu hawliadau ar-lein.

Dangosodd ein harolwg i Bobl Ifanc eu bod yn poeni'n fwy na dim am gael digon o arian am anghenion sylfaenol eu teuluoedd a phoeni am arian drwy'r amser, byw menw llety oer a llaith a methu â theimlo'n ddiogel lle rydych chi'n byw. O ran yr ysgol, roedd eu sylwadau i raddau helaeth yn adlewyrchu sylwadau'r prif arolwg; methu fforddio gwneud gweithgareddau tu allan i'r ysgol, methu mynd ar dripiâu ysgol a bod heb y gwisg neu'r dillad chwaraeon cywir. Siaradodd rhai o'r bobl ifanc a ymateodd i'r arolwg am bethau nad oedd eu teulu yn gallu eu fforddio, ond heb sôn amdanynt eu hun fel byw mewn tlodi.